



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Y gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), a sut mae'n gweithio.

First published: 8 June 2022

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from socialcare.wales and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/datblygiad-proffesiynol-parhaus-dpp> for the latest version.

Mae angen i bob gweithiwr gofal cymdeithasol sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddysgu fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Sut mae'n gweithio

Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, [rydych yn cytuno](#) i gofnodi eich DPP.

Bydd nifer yr oriau y bydd angen i chi eu cyflawni yn dibynnu ar eich swydd:

- mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol gwblhau o leiaf 45 awr o DPP
- mae angen i reolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol gyflawni o leiaf 90 awr o DPP
- nid oes angen i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gwblhau DPP.

Dylech gofnodi'r holl oriau yr ydych wedi'u cwblhau o fewn eich cyfnod cofrestru tair blynedd.

Bydd angen i chi gofnodi eich DPP yn eich cyfrif [GCCarlein](#).

Bydd angen hwn arnoch pan fyddwch yn adnewyddu eich cofrestriad gyda ni.

Dylech hefyd gadw portffolio o dystiolaeth i gefnogi eich cofnod oherwydd efallai y byddwn hefyd yn gofyn am brawf o'ch DPP os cewch eich dewis ar gyfer archwiliad.

Bydd eich cyflogwr – neu berson cymeradwy, os ydych yn hunangyflogedig – yn gwirio eich DPP unwaith y byddwch wedi ei gofnodi.

Mae angen hwn arnoch i [adnewyddu](#) eich cofrestriad gyda ni.

Pethau i'w cofio

- eich cyfrifoldeb chi yw DPP
- mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni o leiaf 45 awr o DPP yn ystod eu cyfnod cofrestru tair blynedd
- mae angen i reolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol gyflawni o leiaf 90 awr o DPP yn ystod eu cyfnod cofrestru tair blynedd
- nid oes angen i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol gwblhau DPP
- dylai DPP fod yn ganlyniad i'ch dysgu a datblygiad, a dylai gael ei gefnogi gan eich cyflogwr
- trwy gael eich cofrestru, rydych wedi cytuno i gwblhau'r nifer gofynnol o oriau DPP ar gyfer eich rôl ac mae'n helpu i gadw'ch gwybodaeth yn gyfredol
- gallwch ychwanegu DPP unrhyw bryd at eich cofnod yn eich [cyfrif GCCarlein](#).

Beth sy'n cyfrif fel DPP

Dylai eich DPP:

- wella eich gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel
- bod o fudd i'ch anghenion personol neu ddatblygiad gyrfa
- fod yn berthnasol i'ch swydd bresennol
- eich helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer
- cynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol neu addysg a dysgu proffesiynol parhaus
- gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i chi er mwyn ffurfio rhan o'ch datblygiad proffesiynol ehangach.

Dyma rai enghreifftiau y gallech eu defnyddio yn eich log DPP:

- cwblhau cymhwyster perthnasol neu gwrs achrededig

- gall gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ddefnyddio'r oriau ar ôl cwblhau eu [rhaglen gydgrynhai](#)
- mynychu hyfforddiant mewnol, gweithdai, seminarau neu gynadleddau, a chrynhai sut mae hyn wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol
- cwblhau modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i'ch ymarfer
- mynychu fforwm proffesiynol neu grŵp rhwydweithio a chrynhai sut mae hyn wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol
- cysgodi cydweithiwr mewn tîm, gwasanaeth neu broffesiwn cysylltiedig
- cyflawni ymchwil neu ddarllen strwythuredig sy'n gysylltiedig â'ch practis a chrynhai sut mae hyn wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol
- rhoi cyflwyniad neu arwain trafodaeth ar bwnc newydd yr ydych wedi ymchwilio iddo a chrynhai sut mae hyn wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol
- cwblhau secondiad mewn maes perthnasol o waith newydd neu waith cysylltiedig
- gwirfoddoli i weithio mewn gwasanaeth newydd
- cymryd cyfrifoldebau newydd neu wahanol a chrynhai sut mae hyn wedi cyfrannu at eich datblygiad proffesiynol.

Dylech anelu at ystod a chydbwysedd o wahanol weithgareddau dysgu.

Er enghraifft, ni ddylech ymgorffori darllen strwythuredig ar gyfer mwy na 10 y cant o'ch DPP a bydd angen i chi ddweud wrthym beth rydych wedi'i ddysgu, a sut y byddwch yn defnyddio'ch dysgu yn eich gwaith.

Nid ydym fel arfer yn derbyn gweithgareddau rheolaidd, fel goruchwyliaeth neu gyfarfodydd tîm, fel DPP.

Sut i gofnodi eich DPP

Dylech ddefnyddio eich cyfrif [GCCarlein](#) i gofnodi'ch DPP.

Gallwch gofnodi eich DPP unrhyw bryd, gan ddefnyddio eich cyfrif GCCarlein.
Gwylwch ein fideo i ddysgu sut i wneud hyn.

Gweld trawsgrifiad

1

00:00 --> 00:04

Gallwch ychwanegu DPP at eich cofnod unrhyw bryd.

2

00:04 --> 00:07

Dewisiwch yr opsiwn DPP o'r ddewislen 'Fy Nghofrestriad'.

3

00:07 --> 00:13

Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen DPP, sydd â gwybodaeth am y gofyniad
DPP

4

00:13 --> 00:15

a sut i ychwanegu DPP.

5

00:15 --> 00:18

Gallwch glicio ar y ddolen i gael rhagor

6

00:18 --> 00:21

o wybodaeth am sut i fodloni eich gofyniad DPP.

7

00:21 --> 00:23

Sgrolwch i lawr y dudalen i

8

00:23 --> 00:25

weld eich cofnod DPP.

9

00:25 --> 00:27

Dyma lle gallwch chi ychwanegu DPP

10

00:27 --> 00:29

gan ddefnyddio'r botwm a ddangosir.

11

00:00:29 --> 00:32

Gallwch hefyd allforio eich cyfnod DPP

12

00:32 --> 00:34

os oes angen, gan ddefnyddio'r botwm ar y dde.

13

00:34 --> 00:36

I ychwanegu DPP,

14

00:36 --> 00:40

cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu DPP'.

15

00:40 --> 00:42

Dewiswch y math o'r gwymplen

16

00:42 --> 00:43

ac ychwanegwch manylion eich gweithgaredd

17

00:43 --> 00:44

hyfforddi neu ddysgu.

18

00:44 --> 00:49

Mae llawer o ffyrdd gallwch barhau i ddysgu

19

00:49 --> 00:52

a ddatblygu fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol,

20

00:52 --> 00:56

a gall llawer o bethau gyfrif fel DPP.

21

00:56 --> 00:00:58

Mae gennym fwy o wybodaeth am yr

22

00:58 --> 01:01

hyn sy'n cyfrif fel DPP ar ein gwefan.

23

01:01 --> 01:03

Nesaf, dwedwch wrthym yn gryno

24

01:03 --> 01:07

sut mae'r gweithgaredd hwn wedi cyfrannu at eich datblygiad

25

01:07 --> 01:10

ac wedi helpu i lywio eich ymarfer.

26

01:10 --> 01:11

Bydd gwahanol weithgareddau yn

27

01:11--> 01:13

dysgu pethau gwahanol i chi,

28

01:13 --> 00:01:15

ac mae'n bwysig myfyrio ar sut mae eich

29

01:15 --> 00:01:18

gweithgareddau dysgu wedi eich helpu i

30

01:18 --> 00:01:22

ddatblygu eich sgiliau fel gweithwyr gofal proffesiynol.

31

01:22 --> 01:25

Nesaf bydd angen i chi ddweud wrthym

32

01:25 --> 01:28

pryd y cwblhawyd yr hyfforddiant hwn.

33

01:28 --> 01:30

Os cwblhawyd yr hyfforddiant mewn un diwrnod,

34

01:30 --> 01:35

bydd y 'Dyddiad o' a'r 'Dyddiad i' yr un peth.

35

01:35 --> 01:36

Rhaid iddo fod o fewn eich

36

01:36 --> 01:37

cyfnod cofrestru presennol.

37

01:37 --> 01:40

Yn olaf, mae angen ichi ddweud wrthym

38

01:40 --> 01:43

faint o oriau a gymerwyd i gwblhau'r hyfforddiant.

39

01:43 --> 01:46

Mae'r maes hwn yn derbyn rhifau yn unig.

40

01:46 --> 01:48

Unwaith y byddwch wedi gorffen,

41

01:48 --> 01:50

cliciwch ar y botwm 'arbed' i ychwanegu'r

42

01:50 --> 01:53

cofnod hwn at eich cofnod DPP.

Mae'n rhaid i chi gofnodi eich holl DPP cyn y gallwch adnewyddu eich cofrestrriad.

Byddwn yn gofyn ichi pryd y cwblhawyd yr hyfforddiant neu'r dysgu a'i hyd, beth rydych wedi'i ddysgu a sut y byddwch yn ei ddefnyddio i wella'ch ymarfer.

Cofiwch

Dylech gofnodi eich DPP yn rheolaidd, fel ei fod bob amser yn gyfredol.

Bydd hyn yn cyflymu pethau pan ddaw hi'n amser i adnewyddu eich cofrestrriad.

Tystiolaeth o'ch DPP

Os cewch eich dewis ar gyfer archwiliad, bydd angen i chi anfon portffolio o dystiolaeth o'ch DPP atom.

Bydd hyn yna'n brawf eich bod wedi cyflawni'r gweithgaredd ac yn dangos i ni beth rydych chi wedi'i ddysgu o'r profiad.

Gall eich tystiolaeth gynnwys:

- tystysgrifau cymwysterau
- tystysgrifau o hyfforddiant
- crynodeb byr o'r canlyniadau dysgu.

Gallech ddefnyddio cadarnhad e-bost ac agendâu o gynadleddau, fforymau neu ddogwyddiadau os nad oes gennych unrhyw ddogfennaeth arall.

Cyfrifoldeb eich cyflogwr

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn cwblhau eich oriau DPP ac mae'n rhaid i'ch cyflogwr sicrhau eich bod yn cael cymorth i wneud hynny.

Mae hyn yr un peth p'un a ydych yn gweithio'n llawn-amser neu'n rhan amser, neu os ydych yn gweithio i asiantaeth.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr:

- rhoi cyfleoedd i chi gael mynediad at, i drafod, myfyrio ar a rhannu arfer da yn y gweithle
- sicrhau bod gennych chi gyfleoedd sefydlu, hyfforddi a dysgu sy'n eich cefnogi
- rhoi amser i'ch goruchwylio a'ch gwerthuso
- rhoi adborth defnyddiol i chi am eich perfformiad a'ch datblygiad.

Dylai eich DPP fod yn berthnasol i'ch rôl gofrestredig, a nodau ac amcanion eich cyflogwr a'ch gwasanaeth.

Mae'n bwysig eich bod chi a'ch cyflogwr yn trafod ac yn cynllunio sut y byddwch yn bodloni'ch gofynion.

Os ydych yn hunangyflogedig

Mae angen i chi gwblhau eich oriau DPP os ydych yn hunangyflogedig, a chadw cofnod o'ch DPP.

Pan fyddwch yn mewngofnodi eich DPP drwy [GCCarlein](#) ac yn cael eich dewis i'w harchwilio, gall eich gweithgareddau DPP naill ai gael eu dilysu gan berson priodol, neu gallwch anfon portffolio o dystiolaeth na ellir ei ddychwelyd at ein tîm cofrestru.

Os nad ydych yn siŵr pwy all ddilysu eich DPP, edrychwch ar y [canllawiau dilysu](#)

Os ydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl seibiant

Os ydych yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb hir (er enghraifft: seibiant gyrfa, absenoldeb mamolaeth, salwch neu ddiweithdra) mae angen i chi gwblhau gweithgareddau dysgu neu adsefydlu. Gallwch eu cofnodi fel gweithgareddau DPP.

Mae angen i chi gwblhau eich oriau DPP gofynnol o hyd yn ystod eich cyfnod cofrestru tair blynedd er mwyn gallu adnewyddu eich cofrestriad.

Os ydych chi'n pryderu ynghylch gallu diwallu'ch gofynion DPP, e-bostiwch ein tîm cofrestru ar ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru cyn gynted â phosibl.